Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 2: 1-23

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 2: 11

Astudiaeth 4 Geni'r Gwaredwr – Anrhegion y Doethion

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
1 Chronicl 29: 9-17 Luc 21: 1-4 2

Ymhen ychydig, daeth pobl eraill i weld yr Arglwydd Iesu. Yn aml, caiff y rhain eu galw'n 'Ddoethion', 'Seryddion' neu 'Magi'. Roedd y rhain yn astudio'r sêr, gan ddilyn eu symudiadau ar draws yr awyr. Yn wahanol i'r bugeiliaid, roedden nhw wedi dod o bell.

C **Ysgrifennwch ar yr arwydd o ba gyfeiriad y daethon nhw ac i ba ddinas yr aethon nhw gyntaf.**



1

C **Beth oedd wedi eu harwain ar eu taith hir?**

2

Pan gyrhaeddon nhw'r ddinas, dyma nhw'n gofyn, "Ble mae'r hwn a anwyd yn Frenin yr Iddewon?" Fe wnaeth y brenin ymateb mewn ffordd bendant iawn.

1

C **Pwy oedd y brenin hwnnw?**

3

C **Sut wnaeth e ymateb?**



3

Er mwyn cael gwybod yr ateb i gwestiwn y Doethion, galwodd y brenin ar yr arbenigwyr yn Ysgrythurau'r Iddewon, sef yr hyn rydyn ni'n ei alw'n 'Hen Destament'.

2

C **Beth oedd yr ateb a roddon nhw i'r brenin?**

C **Ysgrifennwch yr adnod (o lyfr y proffwyd Micha) lle cawsant yr ateb.**

2

Ar ôl cael y wybodaeth, teithiodd y Seryddion chwe milltir arall i Fethlehem. Yno, daethant o hyd i'r plentyn gyda Mair a Joseff yn y tŷ. Fe wnaethon nhw Ei addoli a rhoi anrhegion gwerthfawr Iddo.

1

C **Pa anrhegion a roddon nhw Iddo?**

1	2	3

GRID GEIRIAU

Atebwch y cliwiau hyn i lenwi'r Grid Geiriau.

T = "A thithau Bethlehem yng ngwlad Jwda, nid y lleiaf wyt ti o lawer ymysg _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ Jwda."
R = Beth oedd enw'r brenin?
Y = Pwy a ddaeth o'r dwyrain?
S = Beth oedden nhw wedi'i gweld yn codi.
O = Dywedodd Herod ei fod eisiau _ __ _ _ _ y plentyn.
R = Pwy oedd mam y plentyn?
A = Rhoddodd y seryddion _ _ __ _ _ _ _ _ i'r plentyn.
U = Cafodd y seryddion rybudd mewn _ _ _ _ __ _ _ _.



9

Trwy gyflwyno'u hanrhegion gwerthfawr i'r Arglwydd Iesu, roedd y Doethion neu'r Seryddion yn dangos cymaint roedden nhw'n ei werthfawrogi. Roedd Duw wedi dysgu iddyn nhw pa mor ARBENNIG oedd y Brenin newydd hwn ac roedden nhw'n gwybod ei fod yn haeddu eu trysorau gorau.

Dylai pawb ohonom ofyn: Pa mor werthfawr yw Iesu i Mi? Ydw i'n ei werthfawrogi? A yw'n Arglwydd ac yn Waredwr i Mi?

C **Ar ôl i chi feddwl am y cwestiynau hyn, ysgrifennwch adnod Rhufeiniaid 12: 1.**

1

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157
Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiad Cymraeg gan Siân Roberts

Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai rhwng 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120